



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bro Morgannwg

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer y flwyddyn 2014–15

Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-2015

Awdurdod Cyngor Bro Morgannwg
Lleol:

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

1. Crynodeb

- 1.1. Mae'r cyngor yn parhau i fod ar flaen y gad wrth arwain y ffordd ynghylch partneriaethau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Cafwyd cynnydd sylweddol yn y dasg o ailstrwythuro gwasanaethau ardaloedd lleol yn y cyngor, ac mae bellach yn cyflenwi model integredig o iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r broses ailstrwythuro sylweddol wedi bod yn ganlyniad i wasanaethau, staff a thimau rheoli yn dod ynghyd i ddarparu model unigol yn seiliedig ar y gymuned. Mae strategaethau ymyrraeth gynnar ac atal mewn gwasanaethau plant ac oedolion yn parhau yn flaenoriaeth, ac mae tystiolaeth dda i ddangos cynnydd yn yr ardal hon.
- 1.2. Gwariant net y cyngor ar wasanaethau cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn oedd £51.1 miliwn. Mae'r Bwrdd Rhaglen Gyllid yn gyfrifol am oruchwylio'r gwariant a darparu cefnogaeth i'r cyngor i gyflenwi gwasanaethau o fewn y gyllideb. Cyflawnwyd hyn. Mae'r cyngor yn adrodd bod adnoddau yn parhau i fod yn brin, sy'n peri pwysau sylweddol ar wasanaethau cymdeithasol. Roedd yn ofynnol i wneud arbedion pellach gwerth £450,000 yn ystod y cyfnod adrodd.
- 1.3. O fewn gwasanaethau i oedolion, mae'r ffocws wedi bod ar ailfodelu gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth i greu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cefnogi pobl i barhau'n annibynnol. Yn gyffredinol, yn ystod ein gwaith ymweliad safle, gwelsom fod pobl sydd wedi derbyn gwasanaethau wrth y timau Iechyd Meddwl Cymunedol integredig ym Mro Morgannwg yn eu gwerthfawrogi a'u bod wedi gweld gwelliant clir mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y cyfnod adrodd.
- 1.4. Mae'r polisi adsefydlu integredig wedi cael ei weithredu. Mae ychwanegiad gwasanaethau ailalluogi'r cyngor a datblygiad y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid wedi cyfrannu at wella canlyniadau i bobl, ac mae llai o bobl yn profi oedi wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty.
- 1.5. Yn y gwasanaethau plant, mae Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn

parhau i gael eu bodloni gan fwyaf, er nad yw asesiadau iechyd statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal na gwaith gyda gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed wedi gwneud digon o gynnydd. Mae'r cyngor yn parhau â'i strategaeth o reoli nifer y plant sy'n derbyn gofal a gwella cyfleoedd sefydlogrwydd, er bod y nifer o blant sy'n derbyn gofal yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Er y bu rhai meysydd i'w gwella, gan fwyaf, roedd ein harolygiad o wasanaeth maethu'r cyngor yn gadarnhaol, ac roedd yn nodi canlynidadu da i blant.

- 1.6. Mae cyllid wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi cynghorau sy'n gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gwnaeth y cyngor dderbyn canran a rennir o'r grant gyda Chyngor Dinas Caerdydd. Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer y gwaith. Mae'r cyngor yn canolbwyntio ar yr angen i wneud unrhyw waith sydd wedi'i gynllunio'n lleol yn gydnaws â'r newidiadau polisi cenedlaethol sydd wedi'u gosod yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r pwyllgor craffu a'r cabinet yn derbyn diweddariadau ar y newidiadau hyn, ac mae staff wedi derbyn hyfforddiant fel paratoad ar gyfer y Ddeddf.
- 1.7. Mae'r meysydd sydd i'w gwella wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn, ond ar y cyfan, ystyrir bod perfformiad yn erbyn Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn dda. Mae adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn rhoi adolygiad lefel uchel o'r heriau wrth gyflenwi gofal cymdeithasol yn ystod 2014-2015 ac ar gyfer y dyfodol; fodd bynnag, mae gwelliannau eisoes ar waith.
- 1.8. Gwnaed cynnydd ynghylch fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg, "Mwy na Geiriau". Mae'r cyngor wedi ymgymryd ag adolygiad o sgiliau'r gweithlu sydd wedi nodi siaradwyr Gymraeg.

2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

Y maes i'w wella a nodwyd y llynedd	Cynnydd yn 2014-2015
Lleihau nifer y bobl sy'n profi oediadau wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol. Ymgorffori'r polisi rhyddhau integredig yn llawn.	Llwyddwyd i wneud cynnydd. Mae oedi wrth drosglwyddo gofal wedi lleihau yn sylweddol.
Cynyddu'r nifer o grantiau cyfleusterau i'r anabl sy'n cael eu darparu a gwneud hyn yn fwy cyflym.	Mae'r amser cyfartalog i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl wedi lleihau o 284 diwrnod yn 2013-2014 i 199 diwrnod.

<p>Gyda'r bwrdd iechyd, ystyried ffyrdd y gall anghenion therapiwtig plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal gael eu bodloni yn effeithiol ac yn effeithlon ar draws y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, ac mae hefyd yn broblem genedlaethol ledled yr holl awdurdodau lleol.</p>	<p>Mae hyn yn parhau yn fater parhaus a phrin yw'r tystiolaeth o unrhyw gynnydd. Mae'r cyngor wedi rhoi cefnogaeth i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wrth gynllunio a gweithredu camau unioni i fynd i'r afael â diffygion wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, ac mae wedi monitro effeithiau'r gweithrediad.</p>
<p>Drwy ymarfer bwrdd rheoli Teuluoedd yn Gyntaf, craffu'n fanylach ar yr achosion yn y gwasanaeth Teuluoedd yn Cyflawni Newid Gyda'i Gilydd (FACT).</p>	<p>Gwnaed rhywfaint o gynnydd. Canolbwyntiwyd ar ddatblygu protocol atgyfeirio ac adolygiad o'r panel adnoddau.</p>
<p>Ystyried yr adborth a gafwyd yn yr adolygiad cenedlaethol o gomisiynu a sicrhau, yn enwedig, bod monitro contractau yn rhoi mwy o bwyslais ar ansawdd y gofal a brofir gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu.</p>	<p>Gwnaed cynnydd. Cafodd 'Protocol Perfformiad Darparwyr' ei adolygu er mwyn galluogi trafodaethau camau cynnar ynghylch ansawdd gofal â darparwyr gwasanaeth, gan leihau'r angen i ddefnyddio'r broses uwchgyfeirio pryderon.</p>
<p>Gwerthuso a gwella trefniadau ar gyfer adolygu cynlluniau gofal defnyddwyr y gwasanaethau oedolion.</p>	<p>Mae canran y cleientiaid sydd â chynllun gofal a ddylai fod wedi cael ei adolygu wedi lleihau ar gyfer yr ail flwyddyn.</p>
<p>Gwerthuso gweithdrefnau ar gyfer broceriaeth a chontractio er mwyn sicrhau bod ffocws ar ganlyniadau i bobl.</p>	<p>Mae'r cyngor wedi cwblhau ei waith ar froceriaeth a chontractio.</p>
<p>Parhau i wella cyfraddau asesiadau iechyd statudol.</p>	<p>Mae canran yr asesiadau iechyd a gyflawnwyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi lleihau, gyda dim ond 63% o blant sy'n derbyn gofal yn derbyn eu hasesiad iechyd statudol o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 81%.</p>
<p>Parhau i wella cyfraddau cynlluniau addysg personol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.</p>	<p>Gwnaed gwelliant, gyda 97% o blant sy'n derbyn gofal yn meddu ar gynllun addysg personol.</p>
<p>Gwella'r ganran o bobl ifanc oedd yn derbyn gofal yn gynt y mae'n hysbys eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu</p>	<p>Mae hyn wedi gwella o 44% i 57% yn 2014-2015</p>

gyflogaeth.	
-------------	--

3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

3.1. Mae ymweliadau â safleoedd yn rhoi cyfle i AGGCC siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd, a'r staff sy'n rheoli a gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014-2015, ymgwymerodd AGGCC â'r ymweliadau safle, arsylwadau, a chyfleoedd ymgysylltu canlynol:

- Y gwasanaeth iechyd meddwl integredig i oedolion oedran gweithio
- Mynychu'r fforwm darparwyr gofal cartref
- Arsylwi ar dri chyfarfod pwyllgor craffu gofal cymdeithasol ac iechyd

3.2. Cyfarfu AGGCC hefyd â rheolwyr gweithredol ac uwch-swyddogion y cyngor trwy gydol y flwyddyn, i adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol a thrafod cynnydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yng ngwerthusiad perfformiad y llynedd. Roedd y cyngor yn barod iawn i helpu wrth ymgysylltu ag AGGCC, ac fe roddodd rwydd hant i AGGCC gynnal ymweliadau safle.

3.3. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGGCC arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor a chan weithredwyr annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o'r gwasanaeth mewnol ar gyfer maethu. Mae manylion y rhain yn yr adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi, ac maent ar gael ar wefan AGGCC.

4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

- Y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid
- Diogelu oedolion
- Gwasanaethau plant a phobl ifanc a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS)

5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu
- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

Oedolion

Trosolwg

- 6.1. O ran gwasanaethau i oedolion, rhoddwyd pwyslais ar ailfodelu gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth i greu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n rhoi cymorth i bobl aros yn annibynnol. Un enghraifft o hyn yw'r datblygiadau yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid (wedi ei lleoli yng nghanolfan Cysylltu ag Un Fro), lle mae staff gofal cymdeithasol, iechyd a thrydydd sector yn ymateb i bobl sy'n gofyn am gymorth. Mae hyn yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac mae'r cyngor yn nodi amseroedd ymateb cyflymach a bod hyn yn hwyluso ymyriadau integredig o'r dechrau. Mae nifer y bobl sydd wedi profi oedi o ran trosglwyddo gofal o ysbyty hefyd wedi cwmpo'n sylweddol. Mae'r gwasanaeth rhyddhau integredig, ymestyn gwasanaethau ailalluogi'r cyngor, a datblygu Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid oll wedi cyfrannu at well perfformiad yn y maes hwn.
- 6.2. Mae amrywiaeth o strategaethau comisiynu ar waith. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Mae gan y cyngor raglen uchelgeisiol ar gyfer integreiddio. Yn ystod 2015-2016, mae'r cyngor yn bwriadu adolygu sut mae'n comisiynu gwasanaethau gofal cartref.
- 6.3. Mae'r cyngor wedi rhoi'r 'Strategaeth Cyfleoedd Dydd' ar waith, gyda'r nod o roi cymorth i bobl ag anableddau dysgu gymryd rhan mewn gweithgareddau dydd pwrpasol. Mae'r cyngor yn nodi bod gwell cyfleoedd dydd i 27 o bobl a fynychodd ganolfannau dydd mwy sefydledig wedi cynyddu. Mae'r defnyddwyr gwasanaeth bellach yn gwneud gwaith gwirfoddol yn y mentrau cymdeithasol 'Snax Cafe' a 'Positive Images'. Mae tîm amlddisgyblaethol ar waith sy'n asesu a rheoli gofal i bobl ag anableddau dysgu sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer integreiddio'r tîm

hwn ymhellach gyda Chyngor Dinas Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

- 6.4. Mae'r cyngor yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl integredig i oedolion oedran gweithio. Maent yn gweithio i rannu polisïau a gweithdrefnau, ac maent yn ymroddedig i roi cymorth i bobl sy'n profi problemau iechyd meddwl sylweddol er mwyn iddynt wneud yr adferiad gorau posibl. Gwerth craidd y polisïau hyn yw y dylai'r unigolyn fod wrth galon gwasanaethau.
- 6.5. Canfu ein hymweliad safle â'r gwasanaeth iechyd meddwl cymunedol integredig fod tri thîm iechyd meddwl cymunedol integredig ym Mro Morgannwg, pob un yn gyfrifol am ardal arbennig. Mae'r timoedd yn rhannu gweithiwr cymdeithasol proffesiynol, sy'n arwain yn gyffredinol ac sy'n gyfrifol am oruchwylio staff o ddydd i ddydd, yn ogystal â sicrhau ansawdd gwaith ymarferwyr gwaith cymdeithasol. Mae swydd debyg ar gael i staff nyrsio. Mae timau iechyd meddwl cymunedol yn brwydro gyda'r trefniadau presennol ar gyfer derbyn a dyrannu gwaith, ac maent yn credu bod nifer yr atgyfeiriadau ac asesiadau dechreuol yn uchel. Mae hyn wedi arwain at frwydrau o ran darparu'r cymorth sydd ei angen ar ddefnyddwyr gwasanaethau tymor hir i symud tuag at annibyniaeth, oherwydd bod y pwyslais ar asesiad dechreuol a rheoli risg.
- 6.6. Trwy ein hymweliadau safle, gwelsom ar y cyfan fod pobl sydd wedi derbyn gwasanaethau gan y timau iechyd meddwl cymunedol integredig ym Mro Morgannwg yn eu gwerthfawrogi, ac yn gweld gwelliant clir mewn gwasanaethau iechyd meddwl dros y deunaw mis diwethaf. Mae integreiddio wedi datblygu, ac mae'n gwella canlyniadau i bobl. Clywsom am y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan wasanaethau sy'n darparu cymorth gyda bywyd dyddiol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan y gwasanaethau cymdeithasol fel y tîm cymorth cymunedol a'i grŵp pêl-droed. Clywsom hefyd fod gwasanaethau trydydd sector sy'n cael eu cyllido trwy'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Fodd bynnag, lleisiwyd pryder gan rai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mai gwelliant bregus yw hwn, ac y gallai toriadau mewn gwasanaeth ddadwneud yr holl waith da sydd wedi ei gyflawni. Mynegodd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau eu bodlonrwydd amlwg gyda'r cymorth a dderbyniwyd gan weithwyr cymdeithasol a darparwyr gwasanaethau, er eu bod yn pryderu bod staff yn dioddef oherwydd baich gwaith.
- 6.7. Mae perfformiad y cyngor wedi dirywio o ran canran y defnyddwyr gwasanaeth y dylid bod wedi adolygu eu cynlluniau gofal. Mae tueddiadau bob chwe blynedd yn dangos bod perfformiad y cyngor wedi gostwng gan 11%, er bod awdurdodau cymharydd wedi dangos, i raddau amrywiol, gwell perfformiad o ran adolygu cynlluniau gofal. Dylid

gweld adolygiadau o gynlluniau gofal fel cyfle i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'u sicrhau eu bod yn parhau i dderbyn y lefel briodol o ofal. Mae'r cyngor yn bwriadu targedu adolygiadau'n fwy manwl trwy sefydlu tîm adolygu.

- 6.8. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, mae'r Bwrdd Diogelu Lleol wedi dod yn rhanbarthol, ac mae'n cynnwys cyngorau Bro Morgannwg a Dinas Caerdydd. Dengys dangosyddion perfformiad fod y risg wedi cael ei rheoli ar gyfer yr holl atgyfeiriadau diogelwch oedolion a dderbyniwyd. Mae nifer yr atgyfeiriadau diogelu oedolion wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf, yn ôl ffigyrau'r cyngor. Bydd angen i'r cyngor ystyried y rhesymau am y cynnydd hwn, a chanfod unrhyw dueddiadau, a chymryd camau gweithredu lle y bo hynny'n briodol.
- 6.9. Cafodd Wythnos Genedlaethol y Gofalwyr ei chynnal ar y cyd gyda Chyngor Dinas Caerdydd. Yn ôl y cyngor, roedd presenoldeb yn dda yn y digwyddiadau i ofalwyr, ac mae'n parhau i weithio gyda Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddatblygu ymateb lleol i'r Mesur Gofalwyr. Dengys dangosyddion perfformiad fod 100% o ofalwyr oedolion yn cael cynnig asesiad o'u hanghenion eu hunain, a bod yr holl ofalwyr wedi derbyn naill ai asesiad neu adolygiad yn ystod cyfnod yr adroddiad. Mae Swyddog Cymorth i Ofalwyr wedi'i integreiddio o fewn y tîm iechyd meddwl cymunedol; mae hyn wedi gwella cyflymder asesiadau. Mae'n gweithio ochr yn ochr â Hafal, sy'n darparu gwasanaethau ar ran y cyngor i roi cymorth i ofalwyr unigol, a hwyluso cymorth a gweithgareddau gofalwyr. Mae hyn yn dangos trwy flaenoriaethu cymorth gofalwyr y gall pobl sy'n derbyn gwasanaethau fyw mor annibynnol â phosibl.
- 6.10. Tîm Diogelu rhag Colli Rhyddid Caerdydd a'r Fro sy'n gyfrifol am oruchwylio cyfrifoldebau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Dinas Caerdydd, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae 'bwrdd rheoli partneriaeth' yn goruchwylio'r trefniadau. Cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid o ganlyniad i ddyfarniad Gorllewin Swydd Gaer. Mae'r cyngor wedi asesu y bydd angen cyllid ychwanegol ar y tîm, sydd wedi ei ryddhau ers hynny, ar gyfer 'aseswyr budd pennaf' i leihau'r llwyth o geisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid cartrefi gofal.

Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol (oedolion)

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.11. Mae Cyllid Gofal Canolraddol wedi galluogi datblygu'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid (y Ganolfan), sydd yng nghanolfan alwadau Cysylltu ag Un

Fro ac sy'n gweithredu fel y prif bwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol. Mae staff gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn gweithio yn y Ganolfan, gan gynnig gwell cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd. Mae atgyfeiriadau at wasanaeth adnoddau cymuned y Fro'n cael eu gwneud trwy gyfrwng y Ganolfan, sy'n helpu i atal derbyniadau ysbyty ac i leihau faint o amser a dreulir mewn ysbyty. O ran yr ymyriadau angenrheidiol, gellir gwneud penderfyniadau'n gyflym, er enghraifft wrth gytuno ar ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, neu ofal cartref. Mae pobl yn elwa ar gael ymateb cydlynol i'w gofal.

- 6.12. Mae'r cyngor wedi cynyddu faint o wasanaethau ailalluogi ac adsefydlu sydd ar gael. Yn ôl y cyngor, mae ailfodelu tîm adnoddau cymuned y Fro wedi arwain at well canlyniadau, gydag oddeutu 70% o bobl yn cyrraedd annibyniaeth lwyr. Fe all hyn esbonio'r lleihad yn nifer y bobl dros 65 oed a gafodd gymorth yn y gymuned, o 47 ym mhob 1,000 yn 2013-2014 i 41 ym mhob 1,000 yn 2014-2015.
- 6.13. Un o brif flaenoriaethau'r cyngor yw cefnogi annibyniaeth ac ailalluogi ble bynnag y bo hynny'n bosibl. Agorwyd cynllun Extracare cyntaf y cyngor, Golau Caredig, yn ystod cyfnod yr adroddiad, ac fe gafodd pob un o'i ystafelloedd eu cymryd.
- 6.14. Yn ôl y cyngor, mae absenoldeb staff wedi effeithio ar y gwasanaeth TeleV+. Fodd bynnag, mae ffigyrau gan y cyngor yn dangos bod 309 o bobl wedi derbyn cymorth teleofal yn ystod 2014-2015 o'i gymharu â 250 yn y flwyddyn flaenorol. Yn ôl y cyngor, cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y pecynnau ailalluogi a ddarparwyd.
- 6.15. Mae'r amser cyfartalog a gymerir i gyflenwi grant cyfleusterau i'r anabl wedi lleihau o 284 diwrnod yn 2013-2014 i 199 diwrnod, sydd yn welliant. Fodd bynnag, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o'r gwasanaeth grantiau cyfleusterau i'r anabl yng Nghyngor Bro Morgannwg. Canfu'r adolygiad er nad oedd pobl yn aros mor hir ag yn y gorffennol am grantiau cyfleusterau i'r anabl, nid oedd nifer y bobl a gafodd gymorth i fyw yn annibynnol trwy gyfrwng y grantiau wedi newid yn sylweddol. Diben y grant cyfleusterau i'r anabl yw rhoi mwy o ryddid i bobl anabl symud o gwmpas eu cartrefi, a chefnogi annibyniaeth drwy hynny. Os bydd y galw am ofal cymdeithasol yn cynyddu ar y raddfa mae'r cyngor yn ei ddisgwyl, gallai hyn fod yn broblem yn y dyfodol y bydd angen i'r cyngor fynd i'r afael â hi. Mae'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnwys:
 - sefydlu amrywiaeth ehangach o fesurau sy'n galluogi effeithiolrwydd y gwasanaeth grantiau cyfleusterau i'r anabl i gael ei werthuso o ran bodloni anghenion y defnyddiwr ac effeithlonrwydd yr adnoddau sy'n

cael eu defnyddio, yn ogystal â monitro cyflymder cyflenwi

- 6.16. Mae timau therapi galwedigaethol wedi parhau i gynnal gwelliannau a wnaed o ran lleihau rhestrau aros. Mae hyn yn bwysig wrth sicrhau bod pobl yn cael cymorth i fyw'n annibynnol ac yn derbyn yr ymyriadau sydd eu hangen arnynt mor gynnar â phosibl.

Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth

- 6.17. Mae'r cyngor yn dal i fod yn gadarn wrth arwain ar nifer o fentrau integreiddio a phartneriaeth gyda chynghorau eraill a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Cafwyd ymarfer ad-drefnu sylweddol o wasanaethau ardal sydd yn awr yn cyflenwi model integredig o iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r ailstrwythuro sylweddol wedi arwain at ddwyn rheolaeth gwasanaethau a staff at ei gilydd, i ddarparu un model seiliedig yn y gymuned sy'n darparu ymyrraeth gynnar, ailalluogi, a gofal hir dymor. Mae Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn gweithredu fel rheolwr cymunedol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol cymunedol a nifer o wasanaethau iechyd. Ymysg gwasanaethau eraill, mae tîm iechyd meddwl cymunedol i bobl hŷn, a'r tîm gofal cymunedol i oedolion, hefyd yn cael eu rheoli gan yr un rheolwr gweithredol.
- 6.18. Mae galw gan oedolion oedran gweithio ar y tîm iechyd meddwl cymunedol yn uchel, ac mae asesiadau newydd yn cymryd amser oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth y mae eu hanghenion eisoes yn cael eu cydnabod. Mae uwch-reolwyr wedi cydnabod, yn ogystal â thargedu atgyfeiriadau'n well, y dylid gwahanu ymgymryd ag asesiadau newydd oddi wrth weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth presennol. Mae angen i'r gwaith presennol o ymchwilio i un pwynt cyswllt gael ei gwblhau, er mai cyfrifoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw hwn, a byddwn yn awyddus i glywed y canlyniad.
- 6.19. Mae rhwystrau'n dal i fod i ddefnyddwyr gwasanaeth gael adferiad llwyr, rhai ohonynt y tu hwnt i gwmpas timau iechyd meddwl cymunedol, gan gynnwys lleihau stigma a gwella cyfleoedd economaidd i bawb. Gall gweithwyr cymdeithasol wneud mwy i gynnig taliadau uniongyrchol fel mater o drefn ac yn rhagweithiol.
- 6.20. Mae gweithio mewn partneriaeth wedi creu buddiannau i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gan ei fod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Mae integreiddio'n hyrwyddo cysylltiadau gwasanaeth ac yn gwella cyfathrebu. Cafwyd ymroddiad ledled y timau i'r ffordd hon o weithio ac ar lefel uwch-reolwyr. Gallai integreiddio pellach gynnwys ystyried cyllidebau cyfun a threfniadau Adran 33 ffurfiol.

6.22. Mae'r polisi rhyddhau integredig wedi cael ei roi ar waith yn awr, fel y gwnaethom argymhell yn ein hadroddiad blaenorol, yn dilyn ymweliad safle â'r gwasanaeth rhyddhau integredig. Mae graddfa oediadau wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol i bob 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn wedi gostwng yn sylweddol.

Meysydd o gynnydd

- Datblygu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd integredig ymhellach
- Canolfan Cyswllt Cwmseriaid well yn C1V
- Gwelliant o ran amseroedd cyflenwi grantiau cyfleusterau i'r anabl

Meysydd i'w gwella

- Gwella graddfeydd adolygiadau cynllunio gofal
- Cynyddu hyrwyddo taliadau uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth y tîm iechyd meddwl cymunedol
- Canfod datrysiad gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer y pwynt cyswllt unigol ar gyfer y tîm iechyd meddwl cymunedol

Plant a phobl ifanc

Trosolwg

6.23. Mae gwasanaethau plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn gyson wrth gyflawni llawer o dargedau statudol, ac wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant sy'n derbyn gofal. Mae Strategaeth Comisiynu Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (2013-2017) yn nodi sut y bydd anghenion gofal cymdeithasol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu bodloni o fewn yr adnoddau sydd ar gael i'r cyngor yn ystod y cyfnod 2013 i 2018.

6.24. Mae nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau plant wedi parhau i ostwng, o 1,240 yn 2012-2013 i 979 yn 2014-2015. O'r atgyfeiriadau a aeth ymlaen i asesiad cychwynnol, mae ymron i 90% ohonynt yn cael eu cwblhau o fewn y saith diwrnod penodedig, ac mae ymron i 95% o asesiadau craidd yn cael eu cwblhau o fewn y 35 diwrnod penodedig, y ddau ohonynt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cyfrannodd dyraniad dros dro o adnoddau ychwanegol yn y tîm derbyn at y

cyflawniad uchod. Mae'r cyngor yn ystyried ymhellach y trefniadau atgyfeirio yn yr adran gwasanaethau i blant.

- 6.25. Fodd bynnag, mae canran yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd lle cafodd plentyn ei weld gan weithiwr cymdeithasol a chanran yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd lle cafodd plentyn ei weld ar ei ben ei hun gan weithiwr cymdeithasol yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cafodd ymron i 57% o'r asesiadau cychwynnol eu dyrannu i weithiwr cymdeithasol o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 73%. Cafodd ychydig dros 30% o blant eu gweld ar eu pennau eu hunain o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 45%. Bydd arwyddocâd gweld plentyn ar ei ben ei hun yn amrywio, yn dibynnu, er enghraifft, ar oedran y plentyn. Dylai'r cyngor sicrhau ei hun fod y nifer o blant sy'n cael eu gweld gan weithiwr cymdeithasol ac ar eu pennau ei hunain yn briodol.
- 6.26. Mae perfformiad o ran cynnal adolygiadau amddiffyn plant cychwynnol, cyfarfodydd grwpiau craidd, ac adolygiadau amddiffyn plant yn gryf ar ymron i 100% yn y tri maes, ac mae perfformiad uwchben y cyfartaledd cenedlaethol.
- 6.27. Mae'r cyngor yn parhau i weithio'n dda i ddarparu asesiadau i ofalwyr, ac yn ystod cyfnod yr adroddiad, derbyniodd 100% o'r gofalwyr ifanc a oedd yn hysbys i'r cyngor asesiad. Mae amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau wedi cael eu cynnal i ofalwyr ifanc yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys 'wythnos genedlaethol gofalwyr'. Mae'r cyngor yn comisiynu 'Prosiect Gofalwyr Ifanc', sy'n cael ei ddarparu gan Weithredu dros Blant. Mae gofalwyr ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amryw o ddigwyddiadau, ac mae cyfnodau o seibiant byr y tu allan i'r ysgol a'r cartref yn cael eu cynnig.
- 6.28. Mae'r cyngor wedi ymgymryd â gwaith sicrhau ansawdd gyda phlant a phobl ifanc. Canfu'r ymgynghoriad fod plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi cael un gweithiwr cymdeithasol sy'n parhau gyda nhw'n gyson; mae angen gwybodaeth addas i oedran arnynt i'w galluogi i ddeall pam maent yn derbyn gofal; ac maent yn gwerthfawrogi cyfleoedd i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- 6.29. Mae'r Tîm Iechyd ac Anabledd Plant yn gweithio i roi cymorth i deuluoedd, fel cefnogi cynhwysiant cymdeithasol a galluogi plant a phobl ifanc i ennill sgiliau a fydd yn eu helpu i fod yn annibynnol. Mae amrywiaeth o wasanaethau seibiant byr ar gael, fel darpariaeth hamdden, aros dros nos, a seibiant gwyliau. Mae'r cyngor yn gweithio gyda gwasanaethau plant Cyngor Dinas Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar y meysydd ar y cyd sy'n flaenoriaeth fel y storfa offer a datblygu strategaeth gomisiynu i blant ag anableddau. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar gwmpasu a chyflenwi model ar

gyfer darpariaeth breswyl a seibiant mewn ysgol arbennig breswyl Ysgol y Deri.

- 6.30. Mae'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cael ei ddarparu ar sail partneriaeth rhwng Cyngor Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a Chyngor Dinas Caerdydd. Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn llwyddiannus wrth ganolbwyntio ar ymyriadau i deuluoedd ag anghenion cymhleth. Mae'r adroddiad blynyddol yn pwysleisio bod y gwasanaeth wedi helpu i leihau nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant, ac mae wedi cau achosion nifer o deuluoedd oedd yn agored gan wasanaethau plant. Fodd bynnag, mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ym Mro Morgannwg wedi aros yn gymharol sefydlog, gyda chynnydd bach yn 2014-2015.


Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.31. Mae llawer o enghreifftiau o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, yn aml yn cael eu darparu trwy weithio mewn partneriaeth. Mae enghreifftiau o bartneriaethau strategol yn cynnwys y Bwrdd Plant a Phobl Ifanc, Bwrdd Rheoli Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, Bwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd a Bro Morgannwg, a Rhaglen Welliant Gydweithredol De-ddwyrain Cymru.
- 6.32. Mae Dechrau'n Deg yn gweithio mewn partneriaeth â Theuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf, sefydliadau trydydd sector, a gwasanaethau statudol i ganfod anghenion yn y gymuned ehangach, gyda ffocws penodol ar yr agenda 'trechu tlodi'. Cafodd y cyfnod ymestyn ar gyfer Dechrau'n Deg ei gwblhau yn 2015, ac adroddwyd ei fod yn cynnig gwasanaeth i 1,200 o blant a'u teuluoedd ledled 17 ward yn ardal y Barri. Fe all lleihad mewn atgyfeiriadau i wasanaethau plant awgrymu bod strategaethau gwrth-tlodi'n cael effaith. Yn ogystal, mae nifer y plant mewn angen wedi lleihau'n sylweddol, o 627 yn 2013-2014 i 465 yn 2014-2015. Roedd y ffigyrau ymron i 50% yn uwch yn ystod 2011.
- 6.33. Rhan bwysig o'r gwasanaethau ymyrraeth gynnar yw'r Tîm Teuluoedd yn Cyflawni Newid Gyda'i Gilydd (FACT). Yn ôl y cyngor, mae FACT yn chwarae rhan hanfodol wrth roi cymorth i blant a phobl ifanc i barhau i fyw gyda'u teulu, a lleihau'r angen am ymyrraeth fwy ymwithiol a chostus. Gwnaethom argymhell y llynedd y dylid adolygu atgyfeiriadau at y gwasanaeth FACT. Mae'r cyngor wedi archwilio symudiad achosion rhwng y Tîm Derbyn a Chymorth i Deuluoedd a'r Tîm Teuluoedd yn Cyflawni Newid Gyda'i Gilydd (FACT). Mae hyn wedi bod o gymorth wrth ddatblygu protocol atgyfeirio clir. Ymgwymerwyd ag adolygiad o

banel adnoddau'r cyngor, sy'n derbyn atgyfeiriadau, er mwyn ystyried y ffordd fwyaf cost effeithiol o ymateb i lefelau angen.

Plant sy'n derbyn gofal



Niferoedd plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Bro Morgannwg	171	179	198	217	171	184	182

6.34. Mae'r siart uchod yn dangos y tuedd saith mlynedd yn ffigyrau plant sy'n derbyn gofal i bob 1,000 o'r boblogaeth ledled Cymru ac ym Mro Morgannwg. Dengys fod nifer y plant sy'n derbyn gofal ym Mro Morgannwg wedi aros yn gymharol sefydlog dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda gostyngiad bach yn 2014-2015. Mae strategaeth y cyngor i reoli nifer y plant sy'n derbyn gofal a gwella trefniadau sefydlogrwydd yn parhau. Mae'r strategaeth yn cynnwys, lle bo hynny'n addas, diddymu gorchmynion gofal a chefnogi gorchmynion preswyl a gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig i blant mewn lleoliadau sefydlog. Mae'r cyngor yn nodi bod plant sy'n derbyn gofal, lle bo hynny'n bosib, wedi cael eu symud i mewn i'r sir, o leoliadau y tu allan i Fro Morgannwg.

6.35. Mae cynllunio sefydlogrwydd yn dda, ac mae gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gynllun ar gyfer sefydlogrwydd ar waith erbyn eu hail adolygiad. Mae'r 'Panel Sefydlogrwydd' yn gyfrifol am werthuso achosion cyn yr ail adolygiad plant sy'n derbyn gofal. Mae 'llef gwaith diddymu' sy'n ystyried gorchmynion gofal i blant sy'n derbyn gofal y gellid eu rhyddhau i drefniadau llai ffurfiol sydd yn dal i ddiogelu plant.

Yn ôl y cyngor, gwnaed wyth cais llwyddiannus i'r llys i ddiddymu gorchmynion gofal a sefydlu gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig yn ystod cyfnod yr adroddiad mewn perthynas â 12 o blant.

- 6.37. Roedd canran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd dri lleoliad neu fwy wedi gostwng gan 10% yn 2013-2014 i 7% yn 2014-2015. Mae hyn yn is nag ar gyfer awdurdodau lleol cymharol a chyfartaledd Cymru, ac fe ddengys ddarlun sy'n gwella o ran sefydlogrwydd lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal.
- 6.38. Mae'r cyngor wedi ymroi i recriwtio gofalwyr maeth ychwanegol i leihau ei ddibyniaeth ar leoliadau maethu annibynnol. Mae hyn wedi cynnwys buddsoddi mewn swydd gweithiwr cymdeithasol i ganolbwyntio ar recriwtio gofalwyr maeth ychwanegol. Cafodd naw gofalwr maeth prif ffrwd eu cymeradwyo yn ystod cyfnod yr adroddiad, gan ragori ar darged recriwtio'r cyngor o chwech.
- 6.39. Gwnaethom arolygu gwasanaeth maethu'r cyngor, ac ar y cyfan gwelsom fod y gwasanaeth yn rhoi anghenion plant wrth galon ei waith, trwy hyrwyddo lles ac ymdrech i sicrhau bod lleoliadau'n gallu bodloni anghenion cymdeithasol, iechyd ac addysgol y plentyn. Roedd y gwasanaeth yn ymatebol i roi sylw i unrhyw broblemau a godwyd o ganlyniad i arolygiadau ac archwiliadau mewnol. Roedd y gwasanaeth hefyd yn awyddus i gymryd agwedd 'gwersi a ddysgwyd' gan unrhyw broblemau diogelu oedd wedi codi o fewn y gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd dau achos o ddiffyg cydymffurfio technegol ynghylch hyfforddiant a gwiriadau recriwtio ar gyfer gofalwyr maeth.
- 6.40. Yn ystod arolygiad AGGCC o wasanaethau maethu, fe leisiodd gofalwyr maeth bryder am y diffyg mewn tiwtoriaid unigol oedd ar gael i blant sy'n derbyn gofal yn awdurdod lleol Bro Morgannwg, nad oedd y cynlluniau addysg personol yn gyfredol, ac nad oedd pobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau addysg personol. Fodd bynnag, mae dangosyddion perfformiad o ran cwblhau cynlluniau addysg personol wedi codi i 97% (roedd yn 40%), gan ddangos gwelliant sylweddol, a'r cyfartaledd cenedlaethol yw 69%. Mae'r gwasanaeth maethu'n monitro cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, ac yn nodedig yw'r cynnydd o 10%, o 40% i 50%, i blant sy'n derbyn gofal ar Gyfnod Allweddol 3. Mae anghenion iechyd plant sy'n cael eu maethu yn cael eu cefnogi'n gyffredinol, ond mynegodd gofalwyr maeth bryder am anhygyrchedd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), ac mae graddfeydd yr asesiadau iechyd statudol a gynhelir yn isel. Mae graddfeydd asesiadau iechyd statudol i blant sy'n derbyn gofal wedi dirywio, gydag ond 63% o blant sy'n derbyn gofal yn derbyn eu hasesiad iechyd statudol o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o

81%. Mae hwn yn faes y mae angen i'r cyngor ei ystyried gyda phartneriaid iechyd.

6.41. Mae'r cyngor wedi parhau i arwain y cynllun mabwysiadu rhanbarthol cydweithredol. Mae hwn yn cynnwys pedwar cyngor: Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae staff wedi cael eu trosglwyddo i'r un lleoliad fel gweithwyr Cyngor Bro Morgannwg. Ym Mro Morgannwg, cafodd 11 o blant eu mabwysiadu, a chafodd wyth arall eu lleoli i'w mabwysiadu yn ystod 2014-2015.

6.42. Mae'r cyngor wedi gweithredu cynllun 'Pan fydda i'n Barod' Llywodraeth Cymru, sy'n galluogi pobl ifanc i aros gyda'u gofalwyr maeth nes eu pen-blwydd yn 21 oed, neu nes y byddant yn teimlo eu bod yn gallu byw'n annibynnol cyn cyrraedd yr oedran hwnnw. Yn ôl y cyngor, mae'r 'cynllun' yn siŵr o achosi cynnydd yn y galw am leoliadau a chynyddu costau. Bydd angen i'r cyngor hefyd roi sylw i'r angen i recriwtio a chadw gofalwyr maeth sy'n gallu maethu trwy'r ystod oedran, ac sydd wedi cael eu hawdurdodi i wneud hynny.

6.43. Mae'r Panel Rhianta Corfforaethol, dan gadeiryddiaeth yr aelod cabinet ar gyfer gwasanaethau plant ac ysgolion, yn edrych ar faterion sy'n effeithio ar blant sy'n derbyn gofal. Yn ystod 2014-2015, ystyriodd y panel faterion fel cyfrifoldeb yr awdurdod lleol i ymateb i honiadau o gam-drin yn erbyn gweithwyr proffesiynol, cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal, a'r tueddiadau o ran lleoliadau.

Meysydd o gynnydd

- Parhau gyda'r strategaeth er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i blant sy'n derbyn gofal, mewn perthynas â chynllunio sefydlogrwydd
- Recriwtio gofalwyr maeth
- Y ganran o blant sy'n derbyn gofal sydd â chynllun addysg personol

Meysydd i'w gwella

- Gwella'r gyfradd o blant sy'n derbyn gofal sy'n cael asesiad iechyd statudol
- Gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ystyried y ffyrdd y gellir bodloni anghenion therapiwtig plant sy'n derbyn gofal, a'r rhai sy'n gadael gofal, mewn ffordd effeithiol ac effeithlon ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol

7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth

- 7.1. Yn ystod y cyfnod adrodd, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ar gyfer sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith ac yn cael eu dilyn. Darganfu'r adroddiad, er enghraifft, fod y trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli ar gyfer goruchwyllo'r gwaith o benderfynu a yw'r cyngor yn bodloni ei gyfrifoldebau ynglŷn â diogelu plant yn ddigonol ar y cyfan, ond y gellid gwneud rhai gwelliannau. Mae trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso ei gyfrifoldebau ynglŷn â diogelu plant ar y cyfan yn ddigonol, ond gellid gwneud rhai gwelliannau. Mae trefniadau chwythu'r chwiban yn gadarn, ond gellid gwneud gwelliannau. Gwnaed nifer o argymhellion eraill.
- 7.2. Mae Cynllun Gwasanaeth Unedig y Gyfarwyddiaeth yn nodi sut y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn chwarae eu rhan wrth gyflawni canlyniadau allweddol y cyngor, fel y'u nodir yn y cynllun corfforaethol ar gyfer 2013-2017. Mae'r adran gwasanaethau cymdeithasol wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu llawer o'r camau yn y cynllun. Yn uchel ar agenda'r adran, mae'r broses o integreiddio a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r adroddiad hwn wedi nodi amrywiaeth o enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth a chydweithredu – mewn gwasanaethau ailalluogi a gwasanaethau iechyd meddwl, er enghraifft.
- 7.3. Yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi penodi rheolwr cyfarwyddwr newydd yn sgil ymddeoliad y rheolwr cyfarwyddwr blaenorol. Mae arweinyddiaeth yng Nghyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i fod yn sefydlog. Cynhelir cyfarfodydd gyda chyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol a phennaeth y cyngor yn fisol, lle mae'r cyfarwyddwr yn rhoi cyngor ar gynnydd y gwaith ynglŷn â'r gyllideb a gwneud polisïau. Mae'r tri phennaeth gwasanaeth yn cwrdd yn rheolaidd ag aelodau o'r cabinet. Mae cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol.
- 7.4. Mae strategaethau comisiynu ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau. Mae Strategaeth Comisiynu Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc (2013-2017), sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd, yn nodi sut y bydd anghenion gofal cymdeithasol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu diwallu o fewn yr adnoddau sydd ar gael i'r cyngor (2013-2018). Fodd bynnag, nid oes cynnydd wedi'i wneud ar Strategaeth Comisiynu Gwasanaethau Iechyd Meddwl gyda Chyngor Dinas Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

- 7.5. Mae'r cyngor wedi nodi bod angen gwneud cynilion o £150,000 bob blwyddyn rhwng 2014-2015 a 2016-2017 ar leoliadau i blant. Yn ystod 2014-2015, bu gorwariant o £153,000 yn y cyllid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a gafodd leoliad mewn asiantaethau maethu annibynnol, a gorwariant o £55,000 yn y cyllid ar gyfer lleoliadau cadw diogel. Fodd bynnag, gan fod tanwariant mewn adrannau eraill, cyfanswm y gorwariant oedd £20,000. Mae'r cyngor yn ystyried bod hyn yn welliant o gymharu â'r gorwariant o £389,000 yn y flwyddyn flaenorol.
- 7.6. Y llynedd, gwnaeth Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol gyrraedd targed ar gyfer gynilion o £700,000, a llwyddo i fantoli ei chyllidebau. Cynhelir cyfarfodydd cyllid bob mis, a disgwylir y bydd y cyngor yn llwyddo i fantoli ei gyllidebau. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn nodi y gallai'r galw gan wasanaethau ar gyfer pobl fregus yn golygu na wneir y cynilion sydd eu hangen, oherwydd poblogaeth hŷn sy'n arwain at alw mwy. Yn ogystal, mae'n nodi pwysau ariannol a achoswyd gan derfyn Llywodraeth Cymru ar ffioedd am ofal nad yw'n ofal preswyl, sydd wedi cael effaith sylweddol ar gyllidebau gwasanaethau i oedolion a darpariaeth weithredol. Fodd bynnag, llwyddodd y cyngor i gyrraedd y targedau ar gyfer cynilion yn ystod 2014-2015.
- 7.7. Mae'r cyngor wedi llwyddo i gynnal gweithlu cymharol sefydlog. Roedd y gyfradd trosiant staff yn 7.92% (7.8% yn 2013-2014). Mae cynnydd bach wedi bod yn y ffigurau ar gyfer absenoldeb. Adolygwyd y system adolygu perfformiad yn ystod 2014-2015, ac mae'n rhaid i bob aelod o staff gwasanaethau cymdeithasol gael adolygiad blynyddol.
- 7.8. Ar ddiwedd yr ail flwyddyn ers iddo ddod i rym, mae cynnydd wedi'i wneud yn unol â fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, "Mwy na Geiriau". Mae'r cyngor wedi cynnal adolygiad o sgiliau'r gweithlu i nodi siaradwyr Gymraeg, er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr dderbyn gwasanaeth yn eu hiaith gyntaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddadansoddi'r data a dderbyniwyd ynglŷn â mynychder siaradwyr Gymraeg ym Mro Morgannwg – mae'n rhaid cwblhau'r gwaith hwn.
- 7.9. Mynychodd AGGCC dri chyfarfod craffu yn ystod 2014-2015, a chanfod bod aelodau o'r pwyllgor craffu yn deall cymhlethdod rhai o'r materion a roddwyd ger eu bron, ac yn herio ar y lefel briodol. Mae cofnodion y pwyllgor craffu yn dangos bod gan y gyfarwyddiaeth ddull tryloyw o rannu gwybodaeth â'r pwyllgor craffu.

Meysydd o gynnydd

- Ehangu gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth – Canolfan Gofal Cwsmeriaid

Meysydd i'w gwella

- Gweithredu'r gyd-strategaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl gyda Chyngor Dinas Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.